# SL(6)549 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd cyflenwi fêps untro (gan gynnwys rhai am ddim) yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai'r amcanion polisi yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir wrth ddefnyddio deunyddiau crai critigol a gwaredu fêps untro yn anghywir mewn ffrydiau gwastraff gweddilliol a thrwy eu taflu'n sbwriel.
- Annog newid ymddygiad ehangach a mwy cynaliadwy wrth ddefnyddio cynnyrch untro i fynd i'r afael â'r diwylliant 'defnyddio a thaflu'.
- Annog symudiad tuag at ddewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio.

Mae rheoliadau cyfatebol yn cael eu gwneud ar gyfer Lloegr a'r Alban y bwriedir eu dwyn i rym ar yr un pryd â'r Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y rhaglith, cyfeirir at adran 140(1)(d) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel un o'r pwerau galluogi y mae'r Rheoliadau hyn yn dibynnu arnynt. Mae adran 140(1)(d) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau sy'n gwahardd storio unrhyw eitem neu erthygl benodedig, neu'n cyfyngu ar hynny, i'w hatal rhag achosi llygredd amgylcheddol a niwed i iechyd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â storio fêps untro. Felly, ymddengys nad yw'r pŵer hwn wedi cael ei arfer wrth wneud y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw adran 140(1)(d) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 wedi'i henwi yn rhaglith rheoliadau cyfatebol Lloegr a'r Alban sy'n dibynnu ar yr un Ddeddf alluogi.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 9(4)(e) yn cynnwys, fel amod a all arwain at warant i roi mynediad, yr amgylchiad pan fyddai cais i fynd i'r fangre yn tanseilio diben y mynediad arfaethedig. Nid yw'n glir at ba gais y cyfeirir yn y cyd-destun hwn, nac i bwy y gellid ei wneud fel arfer pan na fyddai'n tanseilio diben y mynediad arfaethedig.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 10(1)(d), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n datgan "sub-paragraph (c)" ond yn y lle cyfatebol yn y testun Cymraeg mae'n datgan "f (c)". Felly, yn y testun Cymraeg, nid oes gair i gyfleu ystyr 'is-baragraff' ac mae'r cyfeiriad hefyd yn anghywir.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn yr Atodlen, ym mharagraff 29(2), diffinnir y term "costau" ond ni ddatgenir lle yn y Rheoliadau hyn y mae'r term yn dwyn yr ystyr hwnnw. Defnyddir y term "costau" hefyd ym mharagraff 26(2) o'r Atodlen mewn cyd-destun ychydig yn wahanol. Felly, mae'r Pwyllgor yn gofyn a ddylai paragraff 29(2) nodi lle y mae'r term "costau" yn dwyn yr ystyr a roddir iddo yn y ddarpariaeth honno.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 29(4) o'r Atodlen i'r Rheoliadau yn caniatáu i berson y cyflwynwyd hysbysiad adennill cost gorfodaeth iddo ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr ddarparu dadansoddiad manwl o'r swm. Fodd bynnag, ni ddarperir gwybodaeth ynghylch sut y mae rhaid i'r person hwnnw fynd ati i arfer yr hawl hon, er enghraifft, a oes rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig a/neu a oes rhaid iddo fod o fewn amserlen benodol. Hefyd, nid oes gofyniad ar y rheoleiddiwr i ddarparu'r wybodaeth ar ffurf neu mewn amserlen benodol. Byddai'n cynorthwyo unrhyw berson sy'n ceisio dibynnu ar y ddarpariaeth hon i gael gwybodaeth ychwanegol am sut i fynd ati. Nodir bod paragraff 29 o'r Atodlen yn mynd ymlaen i'w gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddiwr ddarparu canllawiau ar y broses hon, ond nid oes gofyniad i ganllawiau o'r fath gynnwys y materion hyn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

6. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn y rhaglith, ym mharagraff (a), mae'n datgan bod Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud y Rheoliadau hyn i atal yr eitemau a bennir ynddynt rhag achosi llygredd amgylcheddol a niwed i iechyd anifeiliaid. Nid oes cyfeiriad at iechyd planhigion, a geir yn rhaglith y rheoliadau a fydd yn gymwys yn Lloegr. Nodir atal niwed i anifeiliaid neu blanhigion ynghyd ag iechyd pobl a'r amgylchedd yn adran 140(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 fel diben ar gyfer arfer y pwerau a geir yn yr adran honno. Felly, gofynnir am eglurhad pam nad yw'r term planhigion wedi'i gynnwys yn y rhaglith i'r Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Nodir y pwynt, gyda diolch. Gall y brif drosedd a gyflwynir gan y Rheoliadau gael ei chyflawni os oes gan berson fêps untro yn ei feddiant ar gyfer eu cyflenwi. Rhagwelir y gall "ym meddiant" fod ar ffurf storio fêps untro ym mangre busnes (e.e. mewn cwpwrdd dan glo yng nghefn siop). Ar y sail hon, ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r Rheoliadau ddyfynnu adran 140(1)(d) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Nodir y pwynt, gyda diolch. Mae hon yn ddarpariaeth safonol a ddefnyddir mewn llawer o OSau amgylcheddol ac rydym o'r farn bod ei hystyr yn glir ac y'i deëllir yn gyffredin. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygiad.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r mân bwynt cyfwerthedd hwn rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Rydym yn derbyn y pwynt a godwyd a byddwn yn gwneud y cywiriadau a nodir yn y tabl a atodir i'r ymateb hwn cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Nodir y pwynt, gyda diolch. Mewn cysylltiad â pharagraff 29(2) i'r Atodlen, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn glir o bennawd a thestun paragraff 29(1), ac o'r rhestr nad yw'n gynhwysfawr o faterion y gellir eu cynnwys fel "costau", fod "costau" yn ymwneud ag adennill costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiad stop neu hysbysiad cydymffurfio. Felly mae'n amlwg bod y diffiniad hwn o "costau" wedi ei gyfyngu i baragraff 29 yn unig. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn amlwg o ddarllen paragraff 26(2) fod diffiniad culach i "costau" sy'n gymwys i baragraff 26 yn unig (sef y costau hynny yr eir iddynt wrth gyflawni'r gofynion heb eu cyflawni o hysbysiad cydymffurfio neu ymgymeriad trydydd parti na chydymffurfiwyd ag ef). Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwygiad yn ofynnol oherwydd, o dan yr amgylchiadau, mae'r ystyr gyfreithiol yn glir.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Nodir y pwynt, gyda diolch. Byddwn yn dwyn y pwynt hwn i sylw'r Rheoleiddwyr, er mwyn iddynt ystyried a ddylid mynd i'r afael â'r pwynt hwn mewn canllawiau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:** Nodir y pwynt, gyda diolch. Mae'n hysbys iawn y gall taflu sbwriel fêps untro niweidio anifeiliaid drwy lyncu, gwenwyno a thagu. Mae llai o ymchwil wedi ei gwneud mewn perthynas ag effaith taflu sbwriel fêps untro ar blanhigion ac felly mae'n llai sicr. Mae adran 140(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn datgan y caniateir gwneud Rheoliadau pan fo niwed posibl i iechyd anifeiliaid *neu* blanhigion; nid oes angen i'r niwed

gwmpasu'r ddau. Nid yw absenoldeb "planhigion" o'r rhaglith yn cael unrhyw effaith ymarferol ar weithrediad yr offeryn (ac nid yw'n lleihau unrhyw amddiffyniad y bydd y gyfundrefn a gyflwynir gan yr OS yn ei gynnig i blanhigion serch hynny). Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio diwygio'r offeryn mewn cysylltiad â'r pwynt hwn.

Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Fêps Untro) (Cymru) 2024** | **The Environmental Protection (Single-use Vapes) (Wales) Regulations 2024** |
| Ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen, yn y geiriau agoriadol o flaen paragraff (a), mewnosodir "i" o flaen "is-baragraff (2)". | Dd/G |
| Yn rheoliad 10(1)(d), bydd y cyfeiriad at "f (c);" yn cael ei newid i "is-baragraff (c)". | Dd/G |

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.